# QAA Enterprises Limited

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023

**Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 07588108**

*Cyhoeddir y ddogfen hon yn Gymraeg ac yn Saesneg.*

# Cynnwys

**Adroddiad y Cyfarwyddwyr ........ 1**
Rhiant-gwmni ........ 1
Prif weithgareddau ........ 1
Canlyniadau am y cyfnod ........ 1
Cyfarwyddwyr ........ 1
Ysgrifennydd y Cwmni ........ 1
Datganiad o gyfrifoldebau’r cyfarwyddwyr ........ 1
Gwybodaeth i'r archwilydd ........ 2
Rheolau cwmni bach ........ 2
Archwilydd ........ 2
**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol ........ 3**
Sail ar gyfer y farn hon ........ 3
Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol ........ 3
Gwybodaeth arall ........ 3
Barn ar faterion eraill a ragnodir gan *Ddeddf Cwmnïau 2006* ........ 4
Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt trwy eithriad ........ 4
Cyfrifoldebau cyfarwyddwyr ........ 4
Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ........ 5
I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twyll ........ 5
Defnydd o'n hadroddiad ........ 6
**Cyfrif elw a cholledion ........ 7**
**Y Fantolen ........ 8**
**Nodiadau i fynd gyda'r datganiadau ariannol ........ 9**

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Dyma'r cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad a'u datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023.

## Rhiant-gwmni

Mae'r cwmni yn is-gwmni masnachu sy'n eiddo llwyr i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), elusen a chwmni cyfyngedig drwy warant. QAA yw'r rhiant-gwmni yn y pen draw, ac mae wedi dal un cyfranddaliad cyffredin o £1 ers ymgorfforiad y cwmni. Nid oes unrhyw gyfranddaliadau pellach wedi'u cyhoeddi.

## Prif weithgareddau

Mae amcanion y cwmni, fel y'u hamlinellir yn ei Erthyglau Cyd-gymdeithasu, fel a ganlyn:

- darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys ymgynghoriaeth, hyfforddiant, ymchwil, nawdd, adolygu ac achredu, at ddiben cynhyrchu incwm i gynnal amcanion QAA yn unig.
- hyrwyddo a chynnal ansawdd a safonau mewn addysg uwch yn y DU ac mewn gwledydd tramor

Y bwriad yw y bydd unrhyw arian sydd dros ben o'r gweithgareddau hyn yn cael ei roi fel cymorth rhodd i QAA.

## Canlyniadau am y cyfnod

Yn ystod 2021 penderfynodd y Bwrdd y dylai'r cwmni roi'r gorau i weithredu am y tro. Ni fu unrhyw fasnachu yn ystod y flwyddyn ac mae'r trafodion a gynhaliwyd yn ystod 2022-23 yn adlewyrchu symudiad tuag at y sefyllfa hon. Mae mân gostau gweinyddol wedi'u gwrthbwyso gan ddileu'r credydwr rhwng y cwmni â'r rhiant-gwmni. Mae'r cwmni wedi cofnodi colled fechan o £439 (2022: elw o £1,567). Mae'r cyfarwyddwyr yn ystyried hwn yn ganlyniad rhesymol.

## Cyfarwyddwyr

Mae'r cyfarwyddwyr sydd wedi gwasanaethu'r cwmni ers 1af Awst 2022 fel a ganlyn:

- Simon Gaskell
- Linda Duncan (ymddiswyddodd 14 Mawrth 2023)
- Vicki Stott.

## Ysgrifennydd y Cwmni

- Rachel Hill-Kelly

## Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith a rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno mae'r cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y

Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig) a chyfraith berthnasol. O dan gyfraith cwmnïau ni ddylai'r cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o elw neu golled y cwmni am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifo addas ac yna eu gweithredu'n gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a darbodus
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni'n parhau mewn busnes.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos ac egluro trafodion y cwmni a datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â *Deddf Cwmnïau 2006*. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

## Gwybodaeth i'r archwilydd

Yn achos pob un o'r personau sy'n gyfarwyddwyr y cwmni ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad hwn:

- hyd y gŵyr pob un o gyfarwyddwyr y cwmni ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol (gwybodaeth sydd ei hangen ar archwilydd y cwmni mewn cysylltiad â pharatoi'r adroddiad archwilio) nad yw archwilydd y cwmni'n ymwybodol ohoni
- mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau y dylai ef/hi fod wedi eu cymryd fel cyfarwyddwr er mwyn gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd y cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Rheolau cwmni bach

Wrth baratoi'r adroddiad hwn, mae'r cyfarwyddwyr wedi manteisio ar yr eithriad i gwmnïau bach a ddarperir gan adran 415A o *Ddeddf Cwmnïau 2006*.

## Archwilydd

Bydd penderfyniad i ailbenodi Crowe UK LLP yn archwilydd i'r cwmni yn cael ei gynnig yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol QAA.

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan y Bwrdd ar 5ed Rhagfyr 2023.

Prif swyddfa gofrestredig:

Southgate House
Southgate Street
Caerloyw
GL1 1UB

Arwyddwyd trwy orchymyn y Bwrdd

Rachel Hill-Kelly
Ysgrifennydd y Cwmni

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol *QAA Enterprises Limited* ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 sy'n cynnwys y Cyfrif Elw a Cholled, y Fantolen a nodiadau i fynd gyda'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu perthnasol. Y fframwaith ar gyfer adroddiadau ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni ar 31 Gorffennaf 2023 ac o'i elw am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- maent wedi'u paratoi'n gywir, ac yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- maent wedi'u paratoi'n unol â gofynion *Deddf Cwmnïau 2006*.

## Sail ar gyfer y farn hon

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (UK)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y cwmni, yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC), ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

## Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y cyfarwyddwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi ar gyfer eu cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall; hefyd, ac eithrio lle nodir yn benodol i'r gwrthwyneb yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynglŷn â hynny.

Mewn cysylltiad â’n harchwiliad o’r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â’r datganiadau ariannol neu a yw’n ymddangos bod y wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall wedi’i chamddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau perthnasol o’r fath neu’r hyn sy’n ymddangos yn gamddatganiadau, mae’n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i’w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill a ragnodir gan *Ddeddf Cwmnïau 2006*

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod ein harchwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad y cyfarwyddwyr wedi'i baratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt trwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn adroddiad y cyfarwyddwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae *Deddf Cwmnïau 2006* yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chi amdanynt os, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni wneir datgeliadau penodol o dâl cyfarwyddwyr sy’n ofynnol dan y gyfraith; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad; neu
- nid oedd hawl gan y cyfarwyddwyr i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfundrefn ar gyfer cwmnïau bach a manteisio ar yr eithriad cwmnïau bach wrth baratoi adroddiad y cyfarwyddwyr ac o'r gofyniad i baratoi adroddiad strategol.

## Cyfrifoldebau cyfarwyddwyr

Fel yr eglurir yn llawnach yn natganiad cyfrifoldebau’r cyfarwyddwyr a nodir ar dudalen 1, mae’r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi’r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol y mae’r cyfarwyddwyr yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy’n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi’r datganiadau ariannol, mae’r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu’r cwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo’n berthnasol, faterion sy’n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu ar gyfer busnes gweithredol oni bai bod y cyfarwyddwyr naill ai’n bwriadu diddymu’r cwmni neu i roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi cael ein penodi fel archwilydd o dan *Ddeddf Cwmnïau 2006* a byddwn yn adrodd yn unol â'r Deddfau a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n effeithio ar hynny.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw’r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy’n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw’n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli.

Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, ac fe’u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda’i gilydd, y gellid yn rhesymol disgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae manylion ynghylch i ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, wedi'u nodi isod.

Ceir disgrifiad pellach o’n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio’r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o’n hadroddiad archwilio.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod anghysondebau, gan gynnwys twyll

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Nodwyd ac aseswyd y risg o gamddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol yn sgil afreoleidd-dra, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a thrafodwyd y rhain ymysg aelodau ein tîm archwilio. Yna fe wnaethom gynllunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, gan gynnwys cael gafael ar dystiolaeth archwilio ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'n barn.

Cawsom ddealltwriaeth o’r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae’r cwmni’n gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a’r rheoliadau hynny sy’n cael effaith uniongyrchol ar bennu symiau perthnasol a datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn oedd *Deddf Cwmnïau 2006* a Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102). Aseswyd y cydymffurfiad gofynnol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio ar yr eitemau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, ystyriwyd darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, ond y gallai cydymffurfiaeth â hwy fod yn hanfodol o ran gallu'r cwmni i weithredu neu i osgoi cosb berthnasol. Ystyriwyd hefyd y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn y cwmni ar gyfer twyll. Y cyfreithiau a’r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau yn y DU oedd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a deddfwriaeth Cyflogaeth.

Mae safonau archwilio’n cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol ar gyfer nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r Cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ynghyd ag arolygiad o ohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes yna ddogfennaeth o’r fath.


Nodwyd mai’r risg fwyaf o effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol yn sgil afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, oedd y ffaith y gallai rheolwyr ddiystyru rheoliadau a chydnabyddiaeth o incwm. Roedd ein gweithdrefnau archwilio ar gyfer ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys holi rheolwyr ynghylch eu dull eu hunain o ganfod ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profi samplau o gyfnodolion a gyhoeddwyd ac adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am unrhyw duedd.

Yn ogystal â hyn rydym hefyd wedi cwblhau profion terfynu tua diwedd y flwyddyn i sicrhau bod incwm wedi'i gydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid unrhyw archwiliad, mae yna risg na ellir ei hosgoi na fyddwn efallai wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio.
Er enghraifft, y pellaf fo'r diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau (afreoleidd-dra) o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw hi y byddai'r gweithdrefnau sy'n ofynnol gan safonau archwilio, sy'n gyfyngedig yn eu hanfod, yn ei ganfod. Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â chanfod afreoleidd-dra'n parhau, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camgyflwyno, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth â'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

## Defnydd o'n hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Gyfarwyddwyr y cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o *Ddeddf Cwmnïau 2006*. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud er mwyn i ni allu datgan i Gyfarwyddwyr y cwmni'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad gan archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw un ac eithrio'r cwmni a chyfarwyddwyr y cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.



Tara Westcott
Uwch Archwilydd Statudol

Dros ac ar ran

**Crowe UK LLP**

Archwilydd Statudol
4$^{ydd}$ Llawr
St James House
St James Square
Cheltenham
GL50 3PR

Dyddiad: 13 Rhagfyr 2023

# Cyfrif elw a cholledion

| | Nodiadau | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Trosiant** | 2 | 2,826 | 4,435 |
| Cost gwerthu | - | - | |
| **Elw gros** | | **2,826** | 4,435 |
| Treuliau gweinyddol | | **(1,698)** | (2,868) |
| **Elw gweithredu ar weithgareddau arferol cyn trethiant** | 3 | **1,128** | 1,567 |
| Treth ar elw ar weithgareddau arferol | 4 | - | - |
| **Elw ar weithgareddau arferol ar ôl trethiant** | 8 | **1,128** | 1,567 |
| Rhodd elusennol i'r rhiant-gwmni | | (1,567) | - |
| **Elw/(colled) wedi'i gadw am y cyfnod** | | (**439)** | 1,567 |
| Elw wedi'i gadw a ddygwyd ymlaen | | 2,239 | 672 |
| **Elw a gadwyd a ddygwyd ymlaen** | 8 | 1,800 | 2,239 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 11 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.


# Y Fantolen

**(Rhif y cwmni: 07588108**

| | Nodiadau | 2023 £ | 2022 £ |
|---|---|---|---|
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Arian yn y banc ac wrth law | | **3,203** | 5,416 |
| Dyledwyr | 5 | - | - |
| **Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 6 | **(1,402)** | (3,176) |
| **Asedau net** | | **1,801** | 2,240 |
| **Cyfalaf cyfranddaliadau** | | | |
| Cyfranddaliadau cyffredin £1 a dyrannwyd a'u talu'n llawn | 7 | **1** | 1 |
| **Arian wrth gefn** | | | |
| Cyfrif elw a cholledion | 8 | 1,800 | 2,239 |
| **Arian Cyfranddalwyr** | 8 | **1,801** | 2,240 |

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n destun y gyfundrefn ar gyfer cwmnïau bach.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 5ed Rhagfyr 2023 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



Simon Gaskell
Cyfarwyddwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 9 i 11 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i fynd gyda'r datganiadau ariannol

## 1 Polisïau cyfrifyddu

### a Gweithredu polisïau cyfrifyddu

Mae'r polisïau cyfrifyddu canlynol wedi'u gweithredu'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i ddatganiadau ariannol y cwmni.

### b Arferion cyfrifyddu

Mae’r datganiadau ariannol wedi’u paratoi o dan y drefn arferol ar gyfer costau hanesyddol, oni nodir yn wahanol yn y polisïau cyfrifyddu hyn ac yn unol ag Adran 1A o Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy’n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon a *Deddf Cwmnïau 2006*.

### c Busnes gweithredol

Gwnaeth y cwmni golled weithredol o £439 (2022: elw gweithredol o £1,567) ac ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y cwmni asedau net o £1,801 (2022: asedau net o £2,240). Cafodd y rhwymedigaeth rhwng cwmnïau o £2,576 (2022: rhwymedigaeth o £2,576) ei dileu gan y rhiant-gwmni yn ystod y flwyddyn. Mae gan y cwmni arian parod i dalu dyledion trydydd parti wrth iddynt ddod yn ddyledus a'r rhiant-gwmni uniongyrchol. Ar y sail hon mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

### d Trosiant

Mae trosiant yn cynnwys gwerth yr anfonebwyd ar eu cyfer y gwasanaethau a gyflenwyd gan y cwmni, ar ôl tynnu Treth ar Werth a gostyngiadau masnachol. Nid yw'r cwmni wedi'i gofrestru ar gyfer TAW.

## 2 Trosiant

Mae’r trosiant yn ymwneud yn gyfangwbl â gwasanaethau a ddarparwyd yn y DU.

## 3 Elw neu golled weithredol

| | **2023** | **2021** |
|---|---:|---:|
| | **£** | £ |
| Nodir y golled weithredol (2022: elw gweithredol).<br>ar ôl talu: | | |
| Cyflog a buddion eraill y cyfarwyddwyr | - | - |
| Cyflog yr Archwilydd: | | |
| Gwasanaethau archwilio | - | |
| Gwasanaethau trethiant | **1,288** | - |
| Llog yn daladwy i’r rhiant-gwmni | **250** | - |

## 4 Trethiant

Ni fydd unrhyw rwymedigaeth o ran treth gorfforaeth y DU ar gyfer gweithgareddau cyffredin am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 (2022: dim).

## 5 Dyledwyr

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Dyledwyr masnachol - - | | |

## 6 Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Credydwyr masnachol | **700** | - |
| Ymgymeriad y rhiant-gwmni | **-** | 2,576 |
| Croniadau | **702** | 600 |
| | **1,402** | 3,176 |

## 7 Cyfalaf cyfranddaliadau

| | 2023 | 2022 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Cyfranddaliadau Cyffredin £1** | | |
| a dyrannwyd a'u talu'n llawn | **1** | 1 |

## 8 Cysoni symudiad mewn arian cyfranddalwyr

| | Cyfalaf cyfranddaliadau | Cyfrif elw a cholledion | Cyfanswm arian cyfranddalwyr |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Balans ar 1af Awst 2022 | 1 | 2,239 | 2,240 |
| Elw am y flwyddyn | - | (439) | (440) |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2023** | **1** | **1,800** | **1,801** |

## 9 Rhiant-sefydliad a'r sawl sy'n rheoli

Y sawl sy'n rheoli'r cwmni yw'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yn rhinwedd y ffaith ei bod yn meddu ar 100% o'r cyfranddaliadau yn y cwmni. QAA hefyd yw'r grŵp lleiaf a'r grŵp mwyaf y mae datganiadau ariannol cyfunol yn cael eu paratoi ar ei gyfer. Gellir cael gafael ar ddatganiadau ariannol y sefydliad hwn oddi wrth yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB. Mae QAA yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif cwmni 03344784). Mae QAA hefyd yn elusen, wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 1062746), a'r Alban (SC037786).

## 10 Trafodion endidau cysylltiedig

Fel is-gwmni mewn perchnogaeth lwyr, mae *QAA Enterprises Limited* wedi manteisio ar yr eithriad yn FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol ac nid yw wedi datgelu trafodion gyda QAA.

## 11 Digwyddiadau ar ôl y fantolen

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y fantolen yr oedd angen eu datgelu.

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau Elusen Gofrestredig 1062746 a SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwefan: www.qaa.ac.uk